**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Y Rhyl ar 21ain Ebrill 2004 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr F.D Jones (cadeirydd) J. Butterfield, M.Ll. Davies, (Aelod lleol) Sophia Drew, A.E. Fletcher-Williams, M.A. German, D.M. Holder, N.J. Hughes, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones, D. Jones, G. Jones, P. Jones, M.M. Jones, (sylwedydd), R.E. Jones, G. Kensler, (Aelod lleol), A. Owens, F. Shaw. J.A. Smith, D.A. Thomas, D.A.J. Thomas, S. Thomas, K.E. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad, Prif Swyddog Gweithredol Cynllunio a Gorfodi, Prif Swyddog Cynllunio (Y De), Swyddog Gweinyddol (G. Butler), Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol (A. Hughes) a D.B. Jones (Cyfieithwydd).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr I.M. German, K.N. Hawkins, E.C. Edwards, R.J.R. Jones a J.S. Kerfoot-Davies.

**1185 MATERION BRYS**

**SIARAD CYHOEDDUS YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cynllun peilot ar gyfer siarad cyhoeddus wedi cychwyn a chroesawodd y cyfranogwyr. Esboniodd y Cadeirydd y protocol a gytunwyd. Byddai pob siaradwr yn cael siarad am 3 munud i gyflwyno eu hachos, gyda'r person yn erbyn y cynnig yn siarad yn gyntaf.

**1186 CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

(a) *Cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr, a rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir nawr:-*

(i) Caniatâd

| <u>Rhif y Cais.</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 02/2004/0244/PF | Newid defnydd Ty Annedd/sefydliad Gwely a Brecwast yn 4 fflat preswyl.<br>Lleoliad 100/100A Mwrog Street Rhuthun<br>Yn amodol ar amod diwygiedig 2<br>2. Dylid dodi gwydr aneglur yn ffenestr cegin fflat 4 cyn defnyddio'r fflat am y tro cyntaf, a dylid cadw'r gwydr hwnnw bob amser wedi hynny. |

| | |
|---|---|
| 02/2004/0244/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan y Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd.<br>Newid defnydd rhan o storfa archif yn swyddfa, cadw mynediad o Drem Clwyd ac adleoli'r bolardau ar hyd Canol Y Dre.<br>Hen Ffatri Achubwyr Bywyd Hen Lon Parcwr Rhuthun<br>Yn amodol ar Amodau Newydd 3 a 4.<br>3. Dylid darparu cyfleusterau ar y safle ar gyfer llwytho, dadlwytho, parcio a throi cerbydau yn unol â chynllun i'w gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac a gaiff ei gwblhau cyn dechrau'r brydles arfaethedig.<br>4. Dylid adleoli'r bolardiau i'r fan a ddangosir ar y cynllun a gyflwynwyd cyn cychwyn y defnydd a ganiateir trwy hyn.<br>Rhesymau am yr amodau:<br>3. Darparu ar gyfer llwytho, dadlwytho a pharcio cerbydau yn glir o'r briffordd ac i sicrhau nad oes angen i gerbydau fynd ar yn ôl i neu o'r briffordd am resymau diogelwch traffig.<br>4. Er budd diogelwch traffig. |
| 14/2004/0151/PF | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol gan: Pennaeth Cludiant ac Isadeiledd a P. Cassidy, Penrhyn, Cyffylliog.<br>Adeiladu 5 ty annedd ac adeilad ffordd wasanaethu newydd (caniatâd blaenorol ar gyfer 3 ty annedd wedi ei roi dan Gôd Rhif. 14/2003/0976/PF)<br>Tir oddi ar Maes Y Delyn Cyffylliog Rhuthun<br>Yn amodol ar Amod Newydd 7<br>7. Ni ddylai neb fyw yn y tai annedd a gymeradwyir trwy hyn nes bydd y man troi a'r llwybr troed wedi eu hadeiladu i lefel cwrs sylfaenol<br>Rhesymau<br>Er budd symudiad rhydd a diogel traffig ar y briffordd gyffiniol a sicrhau ffurfio mynedfa ddiogel a boddhaol.<br>(amodau dilynol i'w hail-rifo). |
| 15/2003/1458/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan Gyngor Cymuned Llanarmon yn Ial<br>Siaradwr Cyhoeddus<br>Siaradodd Mr Andy Roberts (ymgeisydd) o blaid y datblygiad.<br>Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer lletya defaid a da byw ifanc.<br>Dalar Wen Llandegla Road Llanarmon-Yn-Ial Yr Wyddgrug<br>Yn amodol ar Amodau Diwygiedig 3 a 4<br>3. Cyn defnyddio'r adeilad am y tro cyntaf, dylid tirweddu tir ar ochr orllewinol a gogleddol yr adeilad yn unol â manylion i'w cyflwyno a'u cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylid plannu gwrychoedd draenen a choed ar y tir ar ganolfannau 1 medr mewn rhesi dwbl, ddim hwyrach na'r tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl defnyddio'r adeilad am y tro cyntaf, a dylid adnewyddu unrhyw goed neu blanhigion sy'n marw neu'n dioddef afiechyd, o fewn pum mlynedd o'r datblygiad, gan eu tynnu ymaith ac ail-blannu yn y tymor plannu nesaf gyda rhai o faint a rhywogaeth debyg.<br>4. Dylid cladio wynebau allanol holl waliau, drysau a tho'r adeilad mewn haenau proffil lliw Gwyrdd Olewydd BS12B27, neu liw arall a gytunir yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn adeiladu, a dylid cadw'r haenau y lliw hwnnw bob amser wedi hynny. |

18/2004/0157/PF

Dymchwel bynglo parod a modurdy, adeiladu bynglos semi newydd a mynedfa newydd i gerbydau.
Ty Nant Gardens yn 3 & 4 Nant Glyd Llandyrnog ger Dinbych.
Yn amodol ar Amod Newydd 5
5. Dylid dodi gwydr aneglur yn ffenestr yr ystafell ymolchi ar y drychiad de-ddwyreiniol cyn defnyddio'r ty annedd hwnnw am y tro cyntaf a chadw gwydr o'r fath yno wedi hynny.

20/2004/0155/PF

Adeiladu polydwnnel ar gyfer project garddio cymunedol.
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun
Siaradwr Cyhoeddus: Siaradodd Mrs Whitehead (ymgeisydd) o blaid y datblygiad.

30/2002/1129/PF

Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth Mrs J Ryding a Brynle Williams (AC).
Adeiladu 26 ty annedd, adeiladu dull mynediad a ffurfio man agored, man chwarae a thirweddu, adeiladu gorsaf bwmpio a ffurfio ardaloedd lliniaru cadwraeth natur.
Tir oddi ar (ffurfio parhad i) Ffordd Pen y Maes, Parc Grosvenor, Trefnant.
Siaradwyr Cyhoeddus:
Mrs J. Ryding (trigolyn lleol) – Yn erbyn y datblygiad.
Mr Brockway (asiant) – o blaid y datblygiad.
Amod Newydd 12 – datganiad dull ar gyfer adeiladu a thraffig adeiladu.Gofynnodd y Cynghorydd M.Ll. Davies bod amodau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn gofyn am osod sgriniau ger eiddo presennol.
“Ar ôl i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio O BLAID neu YN ERBYN argymhelliad y Swyddogion i roddi caniatâd cynllunio
Pleidleisiau cofnodedig
O blaid rhoi caniatâd cynllunio **(17)** J. Butterfield, M.A. German, D. Holder, N.J. Hughes, R.W. Hughes, , D. Jones, E.R. Jones, F.D. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, E.A. Owens, J.A. Smith, D.A. Thomas, S. Thomas, K.E. Wells, P.O. Williams, R.Ll. Williams.
Yn erbyn **(6)** S. Drew, A.E. Fletcher-Wililams, N. Hugh-Jones, G. Jones, F. Shaw, C.H. Williams.
Ymatal rhag pleidleisio **(1)**
D.A.J. Thomas.
Felly, rhoddir caniatâd
(Mae'r penderfyniad yn ddarostyngedig i'r ymgeisydd yn gwneud ymrwymiad cynllunio Adran 106 i ddarparu ar gyfer:
(i) cynllun i sicrhau cynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth o Fadfall Cribog Mawr sy'n defnyddio'r safle cais ar hyn o bryd ar "statws cadwraeth ffafriol" er mwyn lliniaru effaith colli tir bwydo i ddatblygiad tai;
(ii) swm cymudedig mewn perthynas â thai fforddiadwy;
(iii) swm cymudedig ar gyfer cynnal man agored ar y safle)

40/2003/1437

Dymchwel adeilad fferm, trosi a newid adeiladau nas defnyddir i ffurfio datblygiad cymysg o 8 ty annedd a lle swyddfa, ffurfio ardaloedd parcio, newid dull mynediad (gan gynnwys ffurfio mannau pasio a chylchfan). Adeiladau yn Fferm Gwernigron The Roe Llanelwy.
Yn amodol ar Amod Diwygiedig 9 ac Amod Newydd 12

| | |
|---|---|
| | 9. Ychwanegu "o Ran 1 a Dosbarth A Rhan 2"<br>12. Dylid defnyddio'r swyddfeydd a ganiateir fel rhan o'r datblygiad hwn fel swyddfeydd o fewn Dosbarth B1 Gorchymyn Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 ac nid ar gyfer unrhyw bwrpas diwydiannol<br>Newid Nodyn i'r Ymgeisydd i ddarllen "Amod Rhif 11"<br>Nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>Fe'ch hysbysir bod hawl tramwy cyhoeddus ger y datblygiad. Ni ddylid amharu ar yr hawl tramwy yn ystod y gwaith adeiladu.<br>(Dymunodd Sophia Drew am gael nodi iddi bleidleisio i wrthod caniatâd cynllunio). |
| 43/2004/0023/PF | Ardal gemau aml-ddefnydd (MUGA) gyda ffens diogelwch 3.9 medr (i gyd), cyfleusterau storio cysylltiedig a 4 colofn llifoleuadau 8 medr o uchder.<br>Cae Chwarae ger Ysgol Melyd Ffordd Pennant Prestatyn.<br>Yn amodol ar Amod Diwygiedig 4 ac Amod Newydd 6<br>4. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, ni chaniateir cychwyn ar y datblygiad nes ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar leoliad a darparu mannau parcio a deunydd arwynebu a dylid cwblhau'r datblygiad yn unol â'r manylion a gytunir cyn dechrau defnyddio MUGA.<br>5. Dodi "Shall" yn lle "will"<br>6. Cyn cychwyn ar y datblygiad, dylid cyflwyno manylion lefelau gorffenedig y MUGA i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig, a dylid adeiladu'r MUGA dim ond yn unol â'r lefelau a gymeradwywyd.<br>Rheswm: Er budd mwynderau gweledol a phreswyl. |
| 43/2004/0098/PF | Newid math ty trwy adeilad estyniad i ochr ty annedd a gymeradwywyd eisoes.<br>Llain 17 Stâd Parc Bodnant Nant Hall Road Prestatyn. |
| 43/2004/0114/PF | Adeiladu llwybr beicio.<br>Tir i'r dwyrain o Barkby Avenue Prestatyn. |
| 45/2003/1330/PF | Newid defnydd o westy i uned ty annedd sengl.<br>Tremorfa Hotel 38 Marine Drive Y Rhyl<br>Dymunodd y Cynghorwyr Nancy Fletcher Williams a Sophia Drew gael nodi iddynt bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd. |
| 45/2003/1331/PF | Dymchwel ty annedd presennol ac adeiladu 1 ty annedd sengl ac adeilad mynediad newydd i gerbydau.<br>3 Bae Brynhedydd Y Rhyl. |
| 45/2004/0076/PF | Codi uchder y to i ffurfio ty annedd dau lawr gyda llety ychwanegol ar lefel y llawr cyntaf.<br>47 Rhuddlan Road Y Rhyl<br>Dymunodd y Cynghorydd Sophia Drew gael nodi iddi bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio. |

| | |
|---|---|
| 45/2004/113/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan r Ymgeisydd.<br>Newid defnydd o adwerthu Dosbarth A1 i swyddfeydd Dosbarth B1<br>Uned A Pentre'r Plant, Rhodfa'r Gorllewin, Y Rhyl<br>Yn amodol ar Amod Newydd 2<br>2. Caiff y swyddfeydd a ganiateir trwy hyn ond eu defnyddio gan staff a gyflogir mewn cysylltiad gyda'r gwasanaethau twristiaeth, diwylliant a hamdden oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>Rheswm: I sicrhau bod y defnydd yn gysylltiedig gyda'r Ganolfan Groeso gyffiniol, yn wyneb gwrthdrawiad posibl gyda pholisi'r Cynllun Datblygiad Unedol.<br>Dymunodd y Cynghorydd Sophia Drew gael nodi iddi bleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.<br>Mae'r cais gan y Cyngor Sir yn wyriad o bolisi ac mae angen cadarnhad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru . |
| 45/2004/0116/PF | Datganodd y Cynghorydd Ann Owens ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater<br>Dymchwel eiddo siop presennol ac adeilad eiddo bwyd parod poeth (A3) gyda llety uwchben.<br>165-167 Wellington Road Y Rhyl.<br>Yn amodol ar Amodau Newydd 5,6 a 7.<br>5. Dim ond personau a gyflogir yn yr allfa bwyd parod poeth ar lawr gwaelod yr eiddo a ddylai fyw yn yr eiddo.<br>6. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith dymchwel cyn y bydd contract ar gyfer yr ailddatblygiad wedi ei lunio.<br>7. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith dymchwel y tu allan i'r oriau canlynol: 0800 to 1900 Llun i Gwener, 0800 i 1300 Sadwrn a dim o gwbl ar ddydd Sul. |
| 45/2004/0119/PF | Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol gan yr Ymgeisydd.<br>Newid defnydd o swyddfydd i swyddfa trefnu tacsis ar y llawr gwaelod<br>45 Kinmel Street Y Rhyl.<br>Yn amodol ar Amodau Newydd 6 a 7.<br>6. Dylid cadw'r maes parcio a nodir ar y cynllun cymeradwyo ar gyfer parcio a throi cerbydau bob amser. Cyfyngir parcio i gerbydau staff yn unig a dylid dodi arwydd yn nodi hynny cyn defnyddio'r maes parcio.<br>7. Ni fydd y defnydd a ganiateir trwy hyn yn agored i aelodau'r cyhoedd o gwbl.<br>Rheswm: Er budd mwynderau preswyl. |

**GWRTHODIADAU**

| | |
|---|---|
| 02/2004/0086/AD | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan yr Ymgeiswyr.<br>Cadw arwydd ffasgia goleuedig<br>46 Well Street Rhuthun |
| 15/2004/0109/PF | Datganodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater.<br>Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol gan Gyngor Cymuned Llanarmon yn lâl a'r Ymgeisydd.<br>Lleoli carafanau sefydlog ychwanegol ar ffin orllewinol Cae 3, ac un garafan ychwanegol ar ffin dwyreiniol Cae 2. |

Parc Carafanau Eryrys Bryn Awelon Eryrys Yr Wyddgrug.
Siaradwyr Cyhoeddus: Siaradodd y Cynghorydd Cymuned B. Barton yn erbyn y datblygiad a siaradodd Mr S. Jenkins (Ymgeisydd) o blaid y datblygiad.
Trechwyd cynnig gan y Cynghorydd Councillor D. Holder am ymweliad safle, a eiliwyd.

15/2004/0166/PF

Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol oddi wrth: Gyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl; yr Ymgeisydd, a Phennaeth Cludiant ac Isadeiledd.
Adeiladu ffens derfyn a gatiau (rhannol ôl-weithredol).
5 Ochr Y Foel Eryrys Yr Wyddgrug
Siaradwr Cyhoeddus, Y Cynghorydd Bob Barton (ar ran y Cyngor Cymuned) yn erbyn y datblygiad.
Ymataliodd y Cynghorydd S. Drew rhag pleidleisio.

24/2004/1306/PO

Datblygu tir trwy adeilad pum ty annedd ac adeiladu mynedfeydd i gerbydau a cherddwyr (cais amlinell).
Rhyd Y Byll, Rhewl ger Rhuthun
Ymataliodd y Cynghorwyr A. Owens ac N. Hugh-Jones rhag pleidleisio.

43/2004/0121/AD

Cadw arwydd cyfeirio/busnes sengl (cais ôl-weithredol).
Camelot Creations Sandy Lane Prestatyn.
Dymunodd y Cynghorydd N. Hugh-Jones gael nodi iddo bleidleisio o blaid rhoi caniatâd cynllunio.

**GOHIRIO**

42/2003/1478/PF

Datganodd y Cynghorydd Sophia Drew ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater.
Adeiladu ty annedd sengl ac adeilad ffordd fynediad newydd i gerbydau.
Tir yn 6 Rhodfa Heilyn Dyserth Y Rhyl.
Gohiriwyd ar gyfer trafodaeth bellach ac ail-ymgynghori.

**YMWELIADAU SAFLE**

01/2004/0180/PO

Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Dinbych, CADW; Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd.
Ail-ddatblygu tir trwy ddymchwel adeilad presennol ac adeilad ty annedd (cais amlinell).
Tir yn cyffinio Plas Castell Bull Lane Dinbych.
Yn amodol ar Ymweliad Safle i asesu effaith bosibl yr adeilad a mater enillion cynllunio.

41/2004/0074/PF

Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Mr a Mrs Puhar, Llety'r Eos Ganol Bodfari
Adeiladu estyniad to goleddf dau lawr gyda balconi dros du blaen y ty annedd.
Llety Yr Eos Isa Mold Road Bodfari Dinbych.
Yn amodol ar Ymweliad Safle i asesu'r effaith ar eiddo cymdogol
Siaradwyr cyhoeddus: Siaradodd Mr Puhar (cymydog) yn erbyn y datblygiad. Siaradodd
Mr Williams (ymgeisydd) o blaid y datblygiad.

43/2003/1446/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gan yr Ymgeisydd.
Ffurfio ystafelloedd yng ngofod y to gyda ffenestr ddormer ar y drychaid dwyreiniol a newid defnydd tir trwy ddymchwel modurdy presennol ac adeiladu adeilad swyddfa sengl ar yr ochr
54 Linden Walk Prestatyn.
Yn amodol ar Ymweliad Safle i asesu effaith y datblygiad ar eiddo cyffiniol a lefelau'r tir.

**1187 MATERION GORFODI**

ENF/2004/0033

5 Ochr Y Foel Eryrys
Ffens heb awdurdod
***PENDERFYNWYD***
(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi yn gofyn am dynnu'r ffens ymaith.
(ii) Cychwyn camau erlyn, neu gamau priodol eraill, yn erbyn unrhyw berson(au) y mae'r Hysbysiad Gorfodi wedi ei gyflwyno iddynt os bydd ef/hi/ hwy yn methu â chydymffurfio gyda gofynion yr Hysbysiad.

ENF/2004/0035

Clinig Well Street Rhuthun.
Arwydd Hysbysebu Heb Awdurdod
***PENDERFYNWYD***
Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio i sicrhau symud ymaith yr arwydd ffasgia goleuedig.

ENF/2003/0058

4 Aspen Walk Y Rhyl
Dysgl lloeren heb awdurdod
***PENDERFYNWYD***
(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau symud ymaith y ddysgl lloeren fawr sydd yn 1 medr mewn diametr.
(ii) Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Ddeddf Cynllunio yn erbyn unrhyw berson, neu bersonau, i'r rhain y cyflwynir unrhyw Hysbysiad Gorfodi, neu Hysbysiad arall, neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant gydymffurfio gyda'r Hysbysiad Gorfodi.

ENF/302/00/N

37-39 Pendyffryn Road Y Rhyl.
Esgeuluso Adeilad Rhestredig
(i) Cyflwyno Hysbysiad Atgyweirio dan Adran 48 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i sicrhau bod y gwaith priodol yn cael ei wneud i warchod yr adeilad.

C43/2004/05

Camelot Creations Sandy Lane, Prestatyn
Arwydd Cyfeirio heb awdurdod
***PENDERFYNWYD***
Rhoi awdurdod ar gyfer y canlynol:
(i) Cychwyn camau erlyn, neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio i sicrhau symud ymaith yr arwydd di-awdurdod. Gohirio cymryd camau am gyfnod o 3 mis er mwyn cynnal trafodaethau.

ENF/2004/34

Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol oddi wrth:
Yr Ymgeisydd, Chris Ruane AS.
2 Tan Y Maes Melidan Prestatyn.
Ffens heb awdurdod.

***PENDERFYNWYD***
(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau symud y ffens ymaith.
(ii) Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Ddeddf Cynllunio yn erbyn unrhyw berson, neu bersonau, i'r rhain y cyflwynir unrhyw Hysbysiad Gorfodi, neu Hysbysiad arall, neu yn erbyn y rhain y cymerir camau cyfreithiol os methant gydymffurfio gyda'r Hysbysiad Gorfodi.
(Pleidleisiodd y Cynghorydd Sophia Drew yn erbyn cymryd camau).

**1188 CYNLLUN DATBLYGIAD UNEDOL SIR DDINBYCH, DE-DDWYRAIN Y RHYL, POLISI MDA1. PRIF GYNLLUN AC YMARFER DYLUNIO TREFOL**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn cyflwyno Prif Gynllun ar gyfer Prif Ardal Datblygu De-Ddwyrain Y Rhyl.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd bod yr ardal hon wedi ei dyrannu yn CDU Sir Ddinbych a fabwysiadwyd ar gyfer tai, datblygiad ysgol a mannau agored.

Comisiynwyd canllaw dyluio trefol ac roedd copi drafft ar gael i'w archwilio.

Roedd y cynigion Prif Gynllun, yn dangos ardaloedd ar gyfer datblygiad, ffyrdd a mannau agored, hefyd ar gael i'w astudio.

***PENDERFYNWYD***
*Cefnogi'r agwedd gyffredinol fel sylfaen ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio.*
*Gwahodd barn Cyngor Tref Y Rhyl.*
*Cychwyn ar ymarfer ymgynghori (gan gynnwys arddangosfeydd/gweithdai) gyda grwpiau a thrigolion lleol.*

**1189 DIWEDDARIAD – PENDERFYNIADAU APELIADAU**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan Benaneth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarcod y Cyhoedd yn manylu penderfyniadau apeliadau a dderbyniwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2004.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**1190 DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle yn deillio o eitem rhif 2 ar y rhaglen, i'w cynnal ar 30ain Ebrill 2004 ac yn hysbysu'r cyfarfod o aelodaeth bresennol y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar 30ain Ebrill 2004.*

**1191 RHESTR O GEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifnedig (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af a 31ain Mawrth 2004.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.48 p.m.

***********